



Helo a chroeso i WOW – yr her cerdded i'r ysgol!

WOW yw un o fentrau newid ymddygiad mwyaf blaenllaw'r DU, a gyflwynir gan Living Streets, elusen y DU ar gyfer cerdded bob dydd. Mae'n wych cael eich ysgol yn rhan o'r her eleni.

Yn y fenter hon sy'n cael ei harwain gan ddisgyblion, bydd y plant yn cofnodi'n ddigidol sut maen nhw'n cyrraedd yr ysgol bob dydd. Os ydyn nhw'n teithio'n llesol (cerdded/troelli, beicio, sgwtera, 'Parcio a Cherdded', neu'n dod oddi ar y trê/bws yn gynt) o leiaf unwaith yr wythnos am fis, cânt eu gwobrwyo â bathodyn WOW. Mae mor hawdd â hynny!

Hyrwyddwr WOW a'ch pecyn croeso

Yn gyntaf, penodwch 'Hyrwyddwr WOW', sef rhywun o fewn yr ysgol a fydd yn **arwain ar y fenter**. Mae'r Pecyn Croeso WOW hwn wedi'i rannu'n ddwy ran:

1. Adnoddau i'r Hyrwyddwr WOW

- Canllaw croeso – yn rhoi cymorth wrth ddechrau arni ac yn darparu dolenni sy'n cefnogi adnoddau digidol.
- Poster WOW – rhwng hwn i fyny a gadewch i bawb wybod eich bod yn ysgol WOW!

2. Gwybodaeth i staff ystafell ddosbarth

- 25 o ganllawiau defnyddiol i'w rhannu gyda phob dosbarth – peidiwch ag anghofio ychwanegu côd mynediad ystafell ddosbarth tri gair yr ysgol yn gyntaf!
- Taflen gynhwysiant – gwybodaeth ar sut i addasu WOW mewn achosion lle na all disgyblion deithio'n llesol i'r ysgol er mwyn sicrhau y gallan nhw barhau i gymryd rhan ac ennill bathodynau. Cysylltwch neu ewch i'n gwefan i ddysgu mwy.

Mae rhagor o wybodaeth ac adnoddau digidol ar gyfer staff ysgol, disgyblion, rhieni a gofalmwyr ar gael yn **livingstreets.org.uk/wowlaunch**. Ar y dudalen hon byddwch hefyd yn dod o hyd i **lythyr at rieni a gofalmwyr** – argraffwch a rhannwch hwn i roi gwybod i bawb am WOW. Mae un ochr i ysgolion WOW newydd ac un ochr i ysgolion sy'n dychwelyd.

Bathodynau WOW

Mae'r bathodynau i gyd wedi cael eu dylunio gan ddisgyblion ledled y DU fel rhan o'n Cystadleuaeth Dylunio Bathodyn WOW blynyddol. Maen nhw'n cael eu creu yng Nghernyw o ddeunydd a fyddai fel arall yn mynd i safleoedd tirlenwi, gan gynnwys hen hambyrddau oergell, platiau plastig a thoriadau potiau iogwrt. Am ragor o wybodaeth, ewch i: **livingstreets.org.uk/recycling**

Mae WOW 2026/27 yn herio plant i **Gerdded y Synhwyrâu**, gan annog disgyblion i feddwl am yr hyn y gallan nhw ei weld, ei glywed, ei arogl, ei flasau neu ei deimlo ar y ffordd i'r ysgol. Mae yna ddetholiad o fathodynau i'w hennill, o **sgwteri i flodau'r haul**. Wrth i ddisgyblion deithio i'r ysgol drwy gydol y flwyddyn, byddan nhw'n ennill bathodynau ac yn rhannu llawenydd ein 11 enillydd. Mae tymor yr hydref yn cychwyn gyda **Sgwteri** ym mis Medi, **Dail Crensiog** ym mis Hydref, **Colomennod yn Cŵan** ym mis Tachwedd a'r bathodyn **Eira a Siocled Poeth** ym mis Rhagfyr. Bydd bathodynau'n cael eu cyflenwi bob tymor, gydag adnoddau'r hydref yn cyrraedd ym mis Medi, adnoddau'r gwanwyn erbyn diwedd mis Ionawr, ac adnoddau'r haf cyn diwedd mis Ebrill.

Rhannwch eich straeon ar y cyfryngau cymdeithasol gan ddefnyddio **#WalkToSchool** / **#CerddedI'rYsgol** a thagiwch ni **@livingstreets** ar Instagram, Bluesky a LinkedIn neu **@LivingStreetsUK** ar Facebook. Edrychwn ymlaen at gydweithio i helpu mwy o blant i fwynhau manteision cerdded a throelli i'r ysgol.

Cofion gorau,

Living Streets

240 City Road, London, EC1V 2PR

020 7377 4900 info@livingstreets.org.uk livingstreets.org.uk